Proffil

# Sgiliau Digidol

Graddedigion

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Pa sgiliau digidol ydych chi wedi'u defnyddio yn y gwaith?**

**Creu'n ddigidol** – "pan oeddwn i'n dysgu Saesneg byddwn i'n creu a dylunio deunydd gwersi drwy ddefnyddio pethau fel MS PowerPoint."

**Dysgu digidol** – "Yn ystod fy PhD dysges i lawer iawn o sgiliau digidol newydd a defnyddio llawer o raglenni a meddalwedd newydd, yn enwedig wrth ddadansoddi a thrin data".

**Hyfedredd digidol** – "yn fy ngwaith addysgu ac yn fy PhD roeddwn i'n dibynnu ar offer a meddalwedd digidol i gyflawni tasgau o ddydd i ddydd felly mae gen i hyfedredd digidol da. Pan ddechreues i fy ngradd israddedig yn Aberystwyth dyna'r tro cyntaf imi anfon neges ebost erioed felly dwi wedi dysgu lot ers hynny."

**Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw wendidau cyffredin yn sgiliau digidol y rhai mewn maes tebyg â chi?**

"Ddim mewn gwirionedd gan fod y rhan fwyaf o raddedigion ffiseg yn ymddangos yn eithaf da gyda thechnoleg ond dwi'n gweld patrwm o ran y berthynas rhwng pa mor dueddol yw pobl tuag at dechnoleg gyfrifiadura ac os nad oes gan bobl ddiddordeb ynddo y cyfan maen nhw'n ei wneud yw codi'r peth lleia sydd ei angen arnyn nhw."

**Oes unrhyw sgiliau digidol yr hoffech fod wedi'u dysgu cyn ichi raddio?**

"Dwi wastad wedi bod â diddordeb mewn cyfrifiadura ac felly dwi'n teimlo'n eithaf medrus yn enwedig ar ôl gwneud Safon Uwch mewn cyfrifiadureg. Fe godes i'r rhan fwyaf o sgiliau digidol cyn graddio ond efallai byddai'r gallu i ddysgu sgiliau rhaglennu cyfrifiadur ar sail y llwyfannau oedd ar gael ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi ei gwneud hi'n haws dod o hyd i swydd yn y maes nawr."

**Pryd wnaethoch chi raddio o Brifysgol Aberystwyth?**


"2002"

**Beth fuoch chi'n ei astudio?**

"Ffiseg"

**Beth ydych chi'n ei wneud yn broffesiynol ers graddio?**

"Dwi wedi dysgu Saesneg yn Japan ac wedi gwneud PhD mewn Ffiseg ym Mhrifysgol Leeds. Ar hyn o bryd dwi'n dy sgu rhaglennu cyfrifiadur i fy hunan a dwi'n gobeithio dod o hyd i yrfa yn hynny"..



# Myfyriwr Ffiseg Raddedig